Callum Jones

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Mae gennyf bum mlynedd o brofiad fel ymddiriedolwr gyda ScoutsCymru yn sicrhau bod y mudiad yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn cynnig sgiliau oes i'r 14,000 o aelodau ifanc yng Nghymru. Trwy gydol yr amser hwn, rwyf wedi canolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo lleisiau pobl ifanc a sicrhau y gallant roi mewnbwn i benderfyniadau, gan sicrhau bod y Sgowtiaid yn parhau i fod yn berthnasol i'n hoedolion gwirfoddol a'n haelodau ifanc yn ogystal ag i'r rheini a allai fod eisiau ymuno. Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi gweithio ym mhob rhan o'r mudiad a'i waith, gan gynnwys adolygu ac ailstrwythuro'r llywodraethiant ac ailstrwythuro'r staff. Rwyf wedi cadeirio Pwyllgor Risg ScoutsCymru a chymryd rhan mewn gwaith Cyllid, Llywodraethiant a Phrosiect ar is-bwyllgorau amrywiol y prif fwrdd.

Yn broffesiynol, bûm yn gweithio i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, sydd wedi fy nghysylltu ag amrediad eang o fudiadau o fewn y sector, felly mae gennyf werthfawrogiad eang o'r heriau a'r cyfleoedd a fydd yn dwyn sylw'r sector yn y blynyddoedd i ddod.

Rwy'n frwd ynghylch llais ieuenctid ac yn credu bod gan fudiadau gwirfoddol botensial enfawr i helpu i ddatrys heriau mwyaf cymdeithasau, a byddem yn dwli bod yn rhan o helpu i wireddu'r cyfleoedd hynny.